**Cyfarfod Partneriaeth**
**Tyfu Canolbarth Cymru**
**Y Siambr, Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron**
**Dydd Gwener 12 Ebrill 2019**
**10:30am – 12:30pm**

## Yn bresennol

| | |
|---|---|
| Ellen Ap Gwynn **(EAG)** | Arweinydd, Cyngor Sir Ceredigion (**Cadeirydd**) |
| Rosemarie Harris **(RH)** | Arweinydd, Cyngor Sir Powys **(Is-gadeirydd)** |
| Ann Elias **(AE)** | Cyngor Sir Ceredigion |
| Alun Davies **(AD)** | Undeb Amaethwyr Cymru |
| Ann Watkin **(AW)** | Llywodraeth Cymru |
| Arwyn Davies **(AD)** | Cyngor Sir Ceredigion |
| Carwyn Jones-Evans **(CJ-E)** | CLILC |
| Ceri Stephens **(CS)** | Grŵp Gweithgynhyrchu Canolbarth Cymru |
| Claire Miles **(CM)** | Swyddog Ymgysylltu Rhanbarthol Canolbarth Cymru |
| Y Cyng. Peter Davies MBE **(PD)** | Undeb Amaethwyr Cymru |
| Y Cyng. Rhodri Evans **(RE)** | Cyngor Sir Ceredigion |
| Y Cyng. Rowland Rees Evans **(RRE)** | Twristiaeth Canolbarth Cymru |
| Cllr. Dafydd Edwards **(DE)** | Cyngor Sir Ceredigion |
| Emma Wilde **(EW)** | Siambr Masnach Canolbarth Cymru |
| Gavin Crouch **(GC)** | Cynghorau Sir Ceredigion a Phowys |
| Gwilym Davies **(GD)** | Cyngor Sir Powys |
| Jenni Thomas **(JT)** | Cyngor Sir Powys |
| Lisa Griffiths **(LG)** | Cyngor Sir Powys |
| Mark Dacey **(MD)** | Grŵp Colegau NPTC |
| Nia Williams **(NW)** | Cyd-bwyllgor Canolbarth Cymru |
| Peter James **(PJ)** | Adfywio – Llywodraeth Cymru |
| Dr. Rhian Hayward MBE **(RH)** | Prifysgol Aberystwyth |
| Rob Halford **(RH)** | WEFO |
| Rob Holt **(RH)** | Croeso Cymru |
| Russell Hughes-Pickering **(RHP)** | Cyngor Sir Ceredigion |
| Val Hawkins **(VH)** | Twristiaeth Canolbarth Cymru |
| Vanessa Naughton **(VN)** | Llywodraeth Cymru |

**Hefyd yn bresennol**
Llion Bevan – Swyddog Cyfathrebu – Cyngor Sir Ceredigion
Seren Jones – Yn cymryd nodiadau – Cyngor Sir Ceredigion

| | | |
|---|---|---|
| **1.** | **Cyflwyniadau ac Ymddiheuriadau**<br><br>Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a gwnaed y cyflwyniadau.<br><br>Mynegodd y Cadeirydd gydymdeimlad ar ran y Bartneriaeth â theulu'r Cyng. Paul James, a gollodd ei fywyd ddoe yn dilyn gwrthdrawiad ar y ffordd ger Bow Street, Aberystwyth.<br><br>Estynnodd y Cyng. Rosemarie Harris (RH) gwahoddiad i'r Cyng. Ellen Ap Gwynn (EAG) i gymryd Cadair Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru ar gyfer y flwyddyn i ddod (2019-20). Diolchodd EAG i RH am ei gwaith yn cefnogi'r Bartneriaeth yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.<br><br>Derbyniwyd ymddiheuriadau ar gyfery cyfarfod heddiw oddi wrth:-<br>• Arwyn Watkins OBE – Hyfforddiant Cambrian<br>• Y Cyng. Dafydd Meurig – Cyngor Sir Gwynedd<br>• Y Cyng. Martin Weale - Cyngor Sir Powys<br>• Y Cyng. Phyl Davies, Cyngor Sir Powys<br>• Dr. Rhodri Llwyd Morgan – Prifysgol Aberystwyth<br>• Gareth Jones - Cyngor Sir Powys<br>• Gerwyn Evans – Llywodraeth Cymru<br>• Hayley Thomas – Bwrdd Iechyd Addysgu Powys<br>• Hywel Davies – Prifysgol y Drindod Dewi Sant<br>• John Jones – Llywodraeth Cymru<br>• Julian Atkins – Park Cenedlaethol Bannau Brycheiniog<br>• Matt Morden - Coleg Sir Gar<br>• Peter Howells - NFU<br>• Peter Skitt – Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda<br>• Rebecca Williams – CLA<br>• Rob Halford – Llywodraeth Cymru<br>• Terri Thomas – Llywodraeth Cymru<br>• Vivienne Lewis – Llywodraeth Cymru | |
| **2.** | **Cofnodion a'r camau gweithredu o gyfarfod diwethaf Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru ar 11 Ionawr 2019.**<br>Cytunwyd bod y cofnodion o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Ionawr yn gofnod cywir.<br><br>Nid oedd unrhyw faterion yn codi o'r Cofnodion. | |

| | | |
|---|---|---|
| **3.** | **Derbyn cyflwyniad gan Dr. Rhian Hayward, Prifysgol Aberystwyth** | |
| | Mynychodd Dr. Rhian Hayward MBE, Prif Weithredwr, Campws Menter ac Arloesi newydd Prifysgol Aberystwyth y cyfarfod i roi cyflwyniad ar y prosiect hyd yn hyn.  Mae copi o’r cyflwyniad wedi’i atodi isod.<br><br>PDF<br>Aberystwyth<br>Innovation & Enterpri<br><br>Cafwyd cyfle i ofyn cwestiynau ar ôl y cyflwyniad.<br><br>Diolchodd y Cadeirydd i Dr. Rhian Hayward am ei chyflwyniad heddiw. | |
| **4.** | **Derbyn cyflwyniad gan Mr. Steve Hughson, Prif Weithredwr, Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru**<br><br>Mynychodd Mr. Steve Hughson, Prif Weithredwr Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru y cyfarfod i roi cyflwyniad ar Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru.<br><br>Cafwyd cyfle i ofyn cwestiynau ar ôl y cyflwyniad.<br><br>Diolchodd y Cadeirydd i Mr. Hughson am ei gyflwyniad heddiw. | |
| **5.** | **Diweddariad rhanbarthol i gynnwys y rhaglen economaidd ranbarthol a datblygiadau cysylltiedig**<br><br>Dywedodd Gavin Crouch (GC), yr Ymgynghorydd Arbennig ar Fusnes a Dadansoddeg, fod y Blaenoriaethau Strategol ar gyfer y rhanbarth bellach wedi'u cwblhau ac y cânt eu dosbarthu yn dilyn y cyfarfod heddiw.<br><br>Mae'r weledigaeth ar gyfer y Fargen Twf yn cael ei datblygu ac mae rhaglen unigol yn cael ei datblygu ar nifer fechan o themâu/meysydd.  Y sector preifat sy’n ei harwain.<br><br>Rhoddodd GC adborth ar y gweithdai sydd wedi’u cynnal hyd yn hyn sy'n helpu i lunio'r weledigaeth ar gyfer y Fargen Twf.  Mae nifer dda wedi mynychu’r gweithdai a chafwyd cyfleoedd da ar gyfer ymgysylltu.<br><br>Dywedodd GC yr hoffai weld mwy o gynrychiolwyr o'r sectorau gweithgynhyrchu ac amaethyddiaeth yn mynychu’r gweithdai yn y dyfodol.<br><br>Yn seiliedig ar adborth, mae GC yn gobeithio cael gweledigaeth ddrafft yn ei lle erbyn diwedd yr wythnos nesaf. | |

**6. Adroddiad Diweddaru Ymgysylltu Rhanbarthol - Diweddariad Chwarter 1**

Cyfeiriodd y Cadeirydd at yr Adroddiad Diweddaru Ymgysylltu Rhanbarthol a oedd wedi'i gylchredeg ymlaen llaw, sy'n rhoi diweddariad ar waith a wnaed yn ystod Chwarter 1.

Cytunodd y Bartneriaeth â'r argymhellion ar dudalen 3 fel a ganlyn:-

1. Cymeradwyo'r cyflwyniad, y cytunwyd arno'n flaenorol drwy weithdrefn ysgrifenedig, i ymchwiliad Pwyllgor EIS Cynulliad Cenedlaethol Cymru i bartneriaethau sgiliau rhanbarthol

2. Bod swyddogion RET yn trefnu cyfarfod rhanbarthol gyda Llywodraeth Cymru a swyddogion a rhanddeiliaid perthnasol i drafod y gweithgaredd arfaethedig Band Eang Cyflym Iawn, a mapio eiddo na fydd yn cael eu gwasanaethu ar ôl diwedd y rhaglen newydd.  Yna gellir defnyddio'r wybodaeth hon i lywio gweithgarwch o dan y rhaglen economaidd ranbarthol newydd.

3. Nodi'r sefyllfa mewn perthynas â'r diweddariad ar y Cynllun Cyflogadwyedd a chyflwyno’r rhaglen Cymru’n Gweithio ar 1 Mai 2019.

4. Nodi'r wybodaeth am effaith Brexit ar y rhanbarth a gyhoeddwyd gan CLlLC.

<u>Rhaglen TBA</u>

Mae dau brosiect o blith y rhestr ranbarthol ddangosol o brosiectau wedi methu â mynd yn eu blaen ac mae dau bellach wedi cael eu cymeradwyo. Y prosiectau llwyddiannus yw’r Gronfa Ranbarthol - Buddsoddi er mwyn Datblygu Eiddo sydd wedi cael cyllid TRIp gwerth £1.5m am ddwy flynedd a Chanolfan Dulais, Llanbedr Pont Steffan (cyllid TRIp o £1.533m). Mae Tŷ Burgess, Prifysgol y Drindod Dewi Sant a Thŷ Ladywell wedi methu â mynd yn eu blaen.

O ganlyniad i’r newidiadau hyn, mae oddeutu £700k wedi’i golli o ddyraniad ariannol y rhaglen yn y flwyddyn gyntaf ac, oherwydd ymrwymiad o ran adnoddau ym mhob blwyddyn ddilynol, mae rhywfaint o bwysau yn y blynyddoedd hyn bellach a bydd angen gofal wrth ei reoli.

Mae adran Cartrefi a Lleoedd Llywodraeth Cymru yn gofyn am sicrwydd, erbyn mis Mehefin, o’r gallu i gyflawni a’r gwariant tebygol ar y prosiectau dangosol sy’n weddill. Bydd hyn oddi mewn i’r gyllideb

| | | |
|---|---|---|
| | ddangosol sydd ar gael ar gyfer y rhanbarth dros y ddwy flynedd sy'n weddill o'r Rhaglen. Maent yn awyddus i osgoi sefyllfa lle bo'r rhanbarth yn tanwario ac yn colli adnoddau. | |
| 7. | **Gweithgor Cysylltedd a Seilwaith - Diweddariad Chwarter 1**<br><br>Cyflwynodd AE Adroddiad Chwarter 1 y Gweithgor Cysylltedd a Seilwaith i'r Bartneriaeth er gwybodaeth.<br><br>Llongyfarchodd AE Llywodraeth Cymru ar agor Ffordd Osgoi'r Drenewydd.<br><br>Dywedodd AE fod gwaith da wedi ei wneud gyda LEP y Gororau. Derbyniwyd gwahoddiad i ymuno â nhw mewn digwyddiad yn San Steffan ar 8 Mai 2019. | |
| 8. | **Enwebu cynrychiolydd sector preifat o Bartneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru i eistedd ar y Bwrdd Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol** | |
| | Rhoddodd Aelodau ystyriaeth i gynrychiolydd sector preifat o Bartneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru i eistedd ar y Bwrdd Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol.<br>Cytunodd yr Aelodau na fyddai'n briodol ar hyn o bryd oherwydd y gwaith sydd ar y gweill i gael endid ei hun i Ganolbarth Cymru ar gyfer dysgu a sgiliau. | |
| 9. | **Unrhyw Faterion Arall**<br><br>**<u>Pwyllgor Materion Cymreig Tŷ'r Cyffredin</u>**<br>Dywedodd MS fod ymchwiliad gan Bwyllgor Materion Cymreig Tŷ'r Cyffredin wedi cael ei lansio yn ymwneud ag effeithiolrwydd Bargeinion Twf a Bargeinion Dinas i Gymru a'r potensial i gyllid tebyg gael ei roi i Ganolbarth Cymru.<br><br>**<u>Croeso Cymru - Ymgynghoriad Twristiaeth</u>**<br>Dywedodd RH fod Croeso Cymru yn cynnal ymgynghoriad tan 14 Mai ar '10 cwestiwn - gadewch i ni lywio'r dyfodol'. Cadarnhaodd RH y byddai'n dosbarthu'r manylion trwy'r trefniadau ysgrifenyddol. | |
| 10. | **Dyddiadau'r Cyfarfodydd yn y Dyfodol** | |

| | | |
|---|---|---|
| | • **Dydd Gwener 12 Gorffennaf 2019 am 10.30am yn Neuadd y Sir, Llandrindod, Powys**<br>• **Dydd Gwener, 11 Hydref 2019 am 10.30am yn y Siambr, Penmorfa, Ceredigion**<br>• **Dydd Gwener, 10 Ionawr 2020 am 10.30am yn Neuadd y Sir, Llandrindod, Powys** | |

**Arweinydd Cyngor Sir Ceredigion, Cynghorydd Ellen Ap Gwynn, Cadeirydd.**

UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd
European Structural and Investment Funds